**LGH-10-00 (min)**

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

**Dyddiad:** Dydd Mercher 18 Hydref 2000

**Amser:** 9.30am tan 12.40pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr (eitemau 1, 2, 3, 6 a 7) |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| David Davies | Mynwy (ac eithrio eitemau 5, 8 a 9) |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr (ac eithrio eitem 9) |
| Alison Halford | Delyn |
| Peter Law | Blaenau Gwent (hyd at eitem 1) |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol (eitemau 1, 2, 3, 6 a 7) |
| Alan Thornton | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol (eitemau 6 a 7) |
| Graham Davies | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol (eitemau 6 a 7) |
| David A'Herne | Cyfarwyddwr, Gostwng Lefel Troseddu Cymru (eitem 4) |
| John Bader | Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 5) |
| Elizabeth Lockwood | Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 5) |
| Judy Wayne | Ymgynghorydd arbenigol (eitem 6) |
| Roger Bonehill | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau agoriadol**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Edwina Hart i’r cyfarfod, yn dilyn ei phenodiad diweddar yn Weinidog dros Gyllid a Chymunedau. Talodd deyrnged i Peter Law am y ffordd adeiladol yr oedd wedi gweithio gyda’r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau gweithredol fel Ysgrifennydd Tai a Llywodraeth Leol y Cynulliad. Cymeradwyodd yr Aelodau y teimladau hyn. Diolchodd Peter Law i’r Aelodau a dywedodd ei fod yn ddiolchgar am y cwrteisi a ddangoswyd tuag ato.

2. Estynnodd y Cadeirydd groeso hefyd i Dai Lloyd, a oedd wedi cymryd lle Owen John Thomas fel Aelod o’r Pwyllgor. Mynegodd ei diolch i Owen John Thomas a Brian Hancock (y cymerwyd ei le gan Janet Davies ym mis Medi) am eu cyfraniad tuag at waith y Pwyllgor.

**Goblygiadau newidiadau’r Cabinet i’r Pwyllgor**

3. Nododd yr Aelodau y cyngor cyfreithiol nad oedd statws y Pwyllgor wedi newid yn dilyn yr ad-

drefnu ar y Cabinet, gan adlewyrchu’r ffaith mai *de minimis* oedd y newidiadau i bortffolio’r Ysgrifennydd Cynulliad (ac i bortffolio’r Pwyllgor felly) at ddibenion Adran 57(4) Deddf Llywodraeth Cymru. Nodwyd nad oedd cyfrifoldeb Edwina Hart am gyllid yn cael ei ystyried yn faes atebolrwydd o dan Adran 57(4) ac nad oedd felly yn effeithiol ar bortffolio’r Pwyllgor.

4. Nododd y Pwyllgor hefyd y cyngor cyfreithiol fod Edwina Hart wedi cymryd lle Peter Law fel Aelod o’r Pwyllgor o dan Adran 57(4) ar y sail bod y portffolio wedi ei neilltuo iddi hi o dan Adran 56(4) y Ddeddf. Teimlai Peter Law bod ei etholwyr ef wedi’u difreinio gan y newid hwn, ac roedd o’r farn ei bod yn annerbyniol nad oedd wedi ei ethol i bwyllgor pwnc yn union ar ôl y newidiadau i’r Cabinet. Dywedodd nad oedd yn fodlon mynychu’r cyfarfod fel sylwedydd. Roedd Aelodau eraill yn bryderus yngln â pharhau â’r cyfarfod pan oedd aelodaeth y Pwyllgor yn cael ei adolygu o fewn rhai grwpiau plaid.

5. Holodd yr Aelodau yngln â’r gwrthdaro buddiannau rhwng rôl Edwina Hart fel Gweinidog Cyllid a’i rôl fel y Gweinidog sy’n gyfrifol am lywodraeth leol a thai. Cytunodd y Gweinidog i egluro ei sefyllfa o safbwynt y gwahanol gyfrifoldebau hyn yng nghyd-destun materion ariannol, gan gynnwys cylch y gyllideb, yn y cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd hefyd iddi roi sicrwydd i’r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol y byddai ei chyfrifoldeb am lywodraeth leol yn cael ei adlewyrchu yn ei theitl Gweinidogol llawn. Mynegwyd pryder gan yr Aelodau hefyd yngln â’r diffyg canllawiau ar rôl Dirprwy Weinidogion.

6. Yng ngoleuni’r drafodaeth, cadarnhaodd yr Aelodau i gyd ar wahân i Janice Gregory eu bod yn barod i fwrw ymlaen â gweddill y cyfarfod. Cytunwyd hefyd i newid trefn yr agenda gan na allai’r Gweinidog fod yn bresennol ond am hanner gyntaf y cyfarfod, er y mynegwyd amheuon yngln â delio â materion polisi gwirioneddol yn absenoldeb y Gweinidog.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

7. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 2: Datganiad o fudd**

8. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;

- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad gan yr Ysgrifennydd Cynulliad: LGH-10-00 (p.1)**

9. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a baratowyd gan Peter Law fel yr Ysgrifennydd Cynulliad. Rhoddodd y Gweinidog adroddiad wedyn ar y prif bwyntiau y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar 16 Hydref.

- Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu'r fformiwla ddiwygiedig ar gyfer yr Asesiad Gwario Safonol, ac roedd y Gweinidog wedi cytuno i ystyried y trefniadau trosiannol;

- Byddai'r swyddogion yn ystyried pob 'baich newydd' ar lywodraeth leol;

- Cytunwyd y byddai'r amserlen ar gyfer rhoi'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd ar waith yn cael ei hymestyn o dri mis, felly byddai gofyn bellach i awdurdodau lleol anfon eu cynigion at y Cynulliad Cenedlaethol erbyn diwedd Medi 2001. Ceir ymgynghori pellach ynghylch yr hyn a elwid yn 'bedwerydd opsiwn', sef strwythur pwyllgorau wedi ei foderneiddio;

- Roedd y Gweinidog wedi cytuno i ysgrifennu llythyr ar y cyd â Syr Harry Jones at yr Ysgrifennydd Cartref yn mynegi pryder ynghylch y sefylla a wynebir gan lywodraeth leol yng nghyswllt ceiswyr nodded;

- Câi gweithgor ei sefydlu i ystyried sut mae gwella diogelwch rhag tân, gan gynnwys rheoliadau yngln â larymau tân ac offer ysgeintio mewn adeiladau newydd. Byddai'r Gweinidog yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor maes o law;

- Câi cyfle cyfartal ei ystyried pan fyddai'r Cyngor Partneriaeth wedi gweld canlyniadau'r archwiliadau cydraddoldeb a gynhaliwyd gan yr awdurdodau lleol.

10. Cytunodd y Gweinidog i ddod ag adroddiad rheolaidd gerbron y Pwyllgor ar ddatblygiadau yn y Cyngor Partneriaeth. Addawodd hefyd y byddai'n codi unrhyw faterion perthnasol sy'n

deillio o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth gyda'i chydweithwyr yn y Cabinet a Chadeiryddion y Pwyllgorau.

11. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd yr Aelodau ymrwymiad y Llywodraeth Bartneriaeth i sefydlu arolwg annibynnol o'r opsiynau o ran systemau pleidleisio posibl mewn etholiadau llywodraeth leol. Roedd rhywfaint o bryder yngln â chost yr arolwg a'r perygl o symud tuag at system bleidleisio a dorrai'r ddolen gyswllt rhwng cynghorwyr a chymunedau lleol. Eglurodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r arolwg yn ystyried yr hyn sy'n fwyaf priodol i Gymru. Pe câi adroddiad yr arolwg ei dderbyn gan y Llywodraeth Bartneriaeth, yna yr oedd ymrwymiad i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol.

- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ystyried sut y gellid datblygu rôl cynghorau tref a chymuned, gan gynnwys dirprwyo pwerau iddynt oddi wrth yr awdurdodau unedol. Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno papur ar y mater hwn.

- Adroddodd y Gweinidog ei bod wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog adolygu polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddigartrefedd ac adrodd yn ôl iddi hi.

**Eitem 6: Arolwg o'r Fformiwla Asesiad Gwario Safonol:**

**LGH-10-00 (p.3)**

12. Dywedodd y Gweinidog fod y papur wedi'i fwriadu i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar adroddiad terfynol yr Is-grp Dosbarthu ar ddatblygu fformiwla Asesiad Gwario Safonol newydd. Dywedodd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno mewn egwyddor erbyn hyn i fabwysiadu'r fformiwla newydd, yn amodol ar becyn y setliad ariannol yn ei gyfanrwydd. Roedd yna bryderon o hyd fodd bynnag yngln â rhywfaint o'r wybodaeth ystadegol y seiliwyd y fformiwla arni, ac roedd adroddiad yr Is-grp Dosbarthu wedi nodi rhaglen o waith pellach i'w wneud ar y fformiwla.

13. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Er bod yr Aelodau'n bryderus yngln â'r diffyg data ardal leol ar lefel wardiau lleol neu lefel is, y farn gyffredinol oedd y dylai'r fformiwla newydd gael ei gweithredu yn 2001-02. Yn yr un modd teimlid mai priodol fyddai ceisio cryfhau'r fformiwla cyn gynted ag y gellid cyflwyno gwelliannau newydd o safbwynt data neu fethodoleg. Fodd bynnag, teimlai un Aelod y dylid gohirio rhoi'r fformiwla ar waith am flwyddyn hyd nes y byddai peth o'r gwaith pellach a nodwyd yn yr adroddiad wedi ei gyflawni.

- Yr oedd cefnogaeth i farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai'r trefniadau trosiannol ar gyfer trosglwyddo i'r fformiwla newydd gael eu cyllido ar wahân i'r setliad cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn y gyllideb. Teimlai un Aelod na ddylai'r trosi i'r fformiwla newydd bara'n hwy na dwy flynedd, ond dywedodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i weithio gyda llywodraeth leol i benderfynu ar yr amserlen weithredu fwyaf priodol.

- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried argymhelliad yr Is-Grp Dosbarthu y dylid ymgymryd ag ymchwil i effaith dileu'r eithriad rhag y dreth gyngor i aelwydydd 'myfyrwyr yn unig'.

- Awgrymodd un Aelod fod y fformiwla'n ddiffygiol am nod oedd yn cymryd effeithiolrwydd cymharol awdurdodau lleol i ystyriaeth. Awgrymwyd hefyd y byddai incymau cyfartalog yn well mesur o amddifadedd na'r niferoedd sy'n hawlio budd-dâl.

- Yr oedd pryder yngln â'r gostyngiad yng nghyfran y dangosyddion a seilir ar batrymau anheddu neu wasgariad y boblogaeth. Codwyd cwestiwn gan un Aelod yngln â defnyddio pellterau llinell syth rhwng pentrefi a threfi fel dangosydd yn hytrach na'r pellterau gwirioneddol ar y ffordd. Dywedodd Graham Davies i'r dangosydd hwn gael ei gynnig gyntaf gan Pion Economics, ac y câi'r pellterau llinell syth eu haddasu i adlewyrchu rhwystrau daearyddol o bwys.

- Yn fwy cyffredinol, teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig cydnabod y byddai amserau teithio yn well dangosydd na phellter i lawer o wasanaethau (er enghraifft, y gwasanaethau cymdeithasol) yn yr asesiadau gwasanaeth unigol, yn yr ystyr y byddai'r cyntaf yn cymryd y tagfeydd traffig a wynebir mewn ardaloedd trefol i ystyriaeth.

- O ran gwarchod defnyddwyr, awgrymwyd nad oedd awdurdodau sydd â diwydiannau trymion wedi eu lleoli o fewn eu ffiniau yn cael iawn digonol am y gweithgaredd gorfodi y mae'n rhaid iddynt ymgymryd ag ef.

14. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn rhoi cyfarwyddyd anffurfiol i'r Aelodau ar y fethodoleg ystadegol sy'n sail i'r fformiwla Asesiad Gwario Safonol newydd.

15. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor ar adroddiad terfynol yr Is-grp Dosbarthu ar ddatblygu fformiwla Asesiad Gwario Safonol newydd. Nodwyd bod dadl ar y fformiwla i'w chynnal yn y cyfarfod llawn ar 31 Hydref.

**Eitem 7: Setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2001-02: LGH-10-00 (p.4)**

16. Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog y câi'r gyllideb ddrafft ei chyhoeddi ar 19 Hydref. Dywedodd i Peter Law, yn ei rôl fel Ysgrifennydd Cynulliad, wneud achos cryf o blaid adnoddau ychwanegol i lywodraeth leol a thai. Byddai'r gyllideb yn rhoi pwyslais ar gyflwyno gwasanaethau i bobl.

17. Nododd yr Aelodau yr ymrwymiad yn y Cytundeb Partneriaeth y byddai codiadau treth gyngor yn cael eu cadw i 3 y cant ar gyfartaledd yn 2001-02. O safbwynt sefyllfa awdurdodau lleol unigol, dywedodd y Gweinidog y byddai'n cymryd barn Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru, na ddylai unrhyw godiadau treth gyngor fod ar ffurf ffigyrau dwbl, i ystyriaeth.

18. Nododd y Pwyllgor y papur.

**Eitem 4: Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu Cymru**

19. Dywedodd David A'Herne iddo gael ei benodi gan y Swyddfa Gartref yng Ngorffennaf fel y Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu i Gymru. Ei nod oedd gostwng lefel troseddu ac anhrefn drwy wella effeithiolrwydd y partneriaethau gostwng lefel troseddu a thrwy weithio gydag asiantaethau eraill. Golygai hyn weithio gyda chydweithwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod troseddu ac anhrefn yn rhan annatod o holl strategaethau'r Cynulliad.

20. Roedd y Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu yn tywys ei waith yn ei flaen drwy helpu i ddatblygu partneriaethau gostwng lefel troseddu, er enghraifft drwy ledaenu'r arferion gorau ac annog cyfranogiad cymunedau lleol. Yn ogystal, yr oeddid yn annog cyflwyno gwasanaethau mewn modd cydweithiol, gyda'r heddlu, asiantaethau a'r gymuned leol yn nodi'r hyn yr oedd angen rhoi sylw iddo er mwyn gwella diogelwch yn y gymuned ac yna'n gweithio gyda'i gilydd i ddiffinio'r ymateb.

21. Tasg gyntaf y Cyfarwyddwr Atal Lefel Troseddu oedd helpu'r partneriaethau gostwng lefel troseddu i nodi targedau sydd yn eu hymestyn ac a ddiffinnir yn nhermau cynnyrch yn hytrach na mewnbwn. Câi'r partneriaethau eu hannog i fabwysiadu rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth a sicrhau eu bod yn cael eu gwerthuso. Roedd David A'Herne wrthi ar y pryd yn ymweld â phob partneriaeth yn ogystal â'r gwasanaethau heddlu a thân.

22. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Er nad yw'r cyfrifoldeb am yr heddlu wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, teimlai'r Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu ei fod mewn sefyllfa gref i sicrhau gostyngiad yn lefel troseddu ac anhrefn yng Nghymru. Adlewyrchai hyn natur amlswyddogaethol cyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r potensial i ymgorffori elfennau troseddu ac anhrefn ym mhob polisi strategol.

- Mynegwyd pryder gan yr Aelodau yngln ag ansawdd y data sydd ar gael am droseddu ac anhrefn, yn enwedig y data a gynhyrchir gan yr heddlu. Cydnabu David A'Herne fod yna broblemau, ond roedd Arolygwyr Heddluoedd Ei Mawrhydi yn gweithio gyda'r heddluoedd i gywiro'r diffygion. Teimlai mai'r ffynhonnell ddata orau oedd Arolwg Troseddau Prydain, a seilir ar sampl o'r boblogaeth yn hytrach nag ar gofnodion yr heddlu. Roedd gwaith ar y gweill i wella Arolwg Troseddau Prydain, er enghraifft, drwy ei gynnal yn amlach ar sail flynyddol, drwy gynyddu maint y sampl a thrwy gynhyrchu'r canlyniadau ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau heddlu.

- Nodwyd y byddai awdurdodau lleol a heddluoedd yn ymgymryd ag archwiliad troseddau pellach yn Ebrill 2001, i ddilyn yr archwiliad a gynhaliwyd cyn i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn ddod i rym. Byddai canlyniadau'r archwiliadau yn cael eu rhyddhau i'r Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu.

- Cymeradwyodd yr Aelodau y gwaith da a wneir gan gynlluniau gwarchod cymdogaeth, ond roedd yna bryder bod rhai o'r cynlluniau cystal â bod wedi troi'n grwpiau *vigilante*. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu fod heddluoedd ac awdurdodau lleol fel ei gilydd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gynlluniau gwarchod cymdogaeth wrth iddynt gael eu sefydlu, er mwyn egluro'r hyn y gellid ac na ellid ei wneud. Dywedodd na fyddai'r heddlu'n goddef sefydlu unrhyw grwpiau *vigilante*.

- Cefnogai'r Pwyllgor y dull o weithredu drwy bartneriaeth i ddatblygu gwell cymunedau a gostwng lefel troseddu, ond teimlai fod angen rhesymoli nifer y partneriaethau gwahanol sy'n gweithredu ar lefel leol.

- Yr oedd pryder yngln â'r gostyngiad yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau

ieuenctid. Awgrymwyd y dylai'r Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu neilltuo rhywfaint o'r adnoddau sydd ar gael i roi cyfle i bobl ifanc ennyn perthynas â'r gymuned. Roedd yn holl bwysig hefyd canolbwyntio ar fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gostwng Lefel Troseddu ei fod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am y polisi ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

- Nodwyd nad oedd yr adnoddau sydd ar gael oddi wrth y Swyddfa Gartref ar gyfer cynlluniau gostwng lefel troseddu megis teledu cylch cyfyng ar gael i gynlluniau mewn cymunedau llai. Cydnabu David A'Herne y pwynt hwn. Dywedodd i lawer o'r cyllid a ddarparwyd hyd yma fod yn arbrofol ei natur i geisio canfod pa fathau o gynlluniau fyddai'n llwyddo i ostwng lefel troseddu.

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus mai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am ddiogelwch y gymuned ond ei bod yn ymddangos bellach mai cyfrifoldeb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd materion cyfiawnder yr ifanc. Teimlid y dylai Edwina Hart fod yn gyfrifol am gyfiawnder yr ifanc yn ogystal â diogelwch y gymuned.

23. Diolchodd y Cadeirydd i David A'Herne am ei gyflwyniad. Dywedodd hefyd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog i gofnodi'n ffurfiol farn y Pwyllgor y dylai cyfiawnder yr ifanc ymddangos ochr yn ochr â diogelwch y gymuned ym mhortffolio'r Gweinidog.

**Eitem 5: Cymunedau'n Gyntaf: LGH-10-00 (p.2)**

24. Mynegwyd amheuon gan rai Aelodau yngln â thrafod yr eitem hon yn absenoldeb y Gweinidog. Cytunwyd fodd bynnag i ystyried y papur, ar y sail y byddai'r Cadeirydd yn mynd ar drywydd unrhyw gwestiynau a godid gyda'r Gweinidog lle bo hynny'n briodol gan wahodd y Gweinidog i ymateb yn ei hadroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor.

25. Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd John Bader y cafwyd tua 160 o ymatebion i ran gyntaf yr ymgynghori ynghylch *Cymunedau'n Gyntaf.* Roedd y rhain wedi nodi nifer o faterion allweddol sy'n effeithio ar ddatblygu cymunedol mewn cymunedau amddifadus, gan gynnwys darpariaeth wael o ran gwasanaethau, deiet ac iechyd, cysylltiadau trafnidiaeth annigonol a lefelau uchel o weithgarwch troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Y cynnig oedd y byddai'r papur ymgynghorol newydd yn argymell y dylid rhestru tua 100 o'r cymunedau mwyaf difreintiedig, gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadiad Amlweddog a gwybodaeth leol, gyda hyd at 5 cymuned amddifadus wedi'i dethol yn ardal pob awdurdod lleol. Byddai yna ymrwymiad hirdymor wedyn i gyllido a chefnogi'r cymunedau hyn mewn ffyrdd eraill.

26. Byddai datblygu potensial yn rhan annatod o'r rhaglen, er mwyn sicrhau bod y newidiadau yn gynaliadwy. Câi gweledigaeth pob cymuned ei datblygu drwy bartneriaeth gymuned, a chynigiwyd y dylai Aelodau'r Cynulliad ymuno â'r partneriaethau yn eu hetholaethau. Câi cynnydd ei fesur drwy gyfrwng system feincnodi, a fyddai'n cael ei dilysu'n allanol.

27. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd pryder yngln â'r cynnig y dylai'r rhaglen gynnwys hyd at 5 cymuned amddifadus yn ardal pob awdurdod lleol, o ystyried yr amrywiadau eang yng ngraddfa'r broblem amddifadedd drwyddi draw rhwng awdurdodau lleol. Cydnabuwyd fodd bynnag fod yna gymunedau amddifadus mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â rhai trefol. Dywedodd John Bader mai'r bwriad oedd y byddai'n rhaid i bob cymuned a enwir yn y rhaglen fodloni rhai meini prawf bras o safbwynt amddifadedd. Roedd gosod uchafswm ar nifer y cymunedau amddifadus yn ardal pob awdurdod lleol yn gydnabyddiaeth o'r adnoddau a fydd yn ofynnol o du'r awdurdodau lleol i roi'r rhaglen ar waith.

- Yn absenoldeb data ardal leol, cymeradwyodd yr Aelodau y cynnig i nodi cymunedau amddifadus yn ôl y Mynegai Amddifadiad Amlweddog ynghyd â gwybodaeth leol. Anaml y mae cymunedau cydlynol yn cyfateb i ardaloedd gweinyddol, a byddai'r patrwm gweithredu hwn yn ei gwneud yn bosibl canfod lefelau sylweddol o amddifadiad o fewn ardaloedd cymharol gefnog. Ar gyfer y tymor hwy, nodwyd bod gwaith ar ddata am ardaloedd bychain ar y gweill gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol.

- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau y gellid sianelu cyllid o raglenni prif ffrwd y Cynulliad Cenedlaethol i mewn i gymunedau amddifadus yn y rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf*. Awgrymwyd bod angen ystyried yr adnoddau a neilltuir i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac atal troseddu, o gofio bod y rhain yn agweddau allweddol o adfywio cymunedau. Yn yr un modd teimlid ei bod yn bwysig gwneud y defnydd mwyaf posibl o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i adfywio cymunedau.

- Teimlai Aelodau fod angen rhesymoli nifer y partneriaethau sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu dolenni cyswllt rhwng y partneriaethau lleol sydd a wnelont â chyflwyno gwasanaethau ar lefel leol a'r partneriaethau mwy strategol sy'n bodoli ar lefelau uwch.

27. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog gan ofyn iddi ddarparu 'map' o'r holl bartneriaethau sydd a wnelont ag adfywio cymunedol, yn ogystal â rhestr o'r holl gynlluniau grant sydd ar gael tuag at adfywio cymunedol. Nid oedd unrhyw gwestiynau eraill i'r Cadeirydd eu codi'n uniongyrchol gyda'r Gweinidog. Fodd bynnag, gwahoddodd John Bader ac Elizabeth Lockwood i sicrhau bod y Gweinidog yn ymwybodol o farn y Pwyllgor yngln â'r

ffordd ymlaen yng nghyswllt *Cymunedau'n Gyntaf.*

**Eitem 8: Adolygiad polisi ar drosglwyddo stoc tai: LGH-10-00 (p.5)**

28. Dywedodd Clerc y Pwyllgor fod y papur yn cyflwyno cynigion ar gyfer y camau sy'n weddill o'r adolygiad polisi ar drosglwyddo stoc tai. Roedd y gwaith o grynhoi'r ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori yn mynd rhagddo, ac roedd ymweliadau â chyrff trosglwyddo stoc yn cael eu trefnu ar gyfer 30 Hydref a 10 Tachwedd. Nodai'r papur nifer o gwestiynau penodol yngln â gweddill yr adolygiad. Yn ogystal, roedd Cyngor y Benthycwyr Morgeisi wedi cynnig rhoi cyflwyniad i'r Aelodau ar y broses o drosglwyddo stoc.

29. Roedd yr Aelodau'n awyddus i ymweld â detholiad cynrychiadol o gyrff trosglwyddo stoc, a oedd yn ymdrin ag ardaloedd gwledig a threfol yn ogystal â chyrff sydd ag ecwiti negyddol ar eu stoc. Roedd Birmingham a Lerpwl yn ddau ychwanegiad posibl at y rhaglen. Cytunwyd i ailystyried hyn ar ôl yr ymweliadau sydd i'w cynnal yn fuan.

30. Teimlai'r Aelodau mai da o beth fyddai derbyn cynnig Cyngor y Benthycwyr Morgeisi o sesiwn cyfarwyddo ar y broses o drosglwyddo stoc. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clerc yn gwneud y trefniadau angenrheidiol. Cytunwyd hefyd fod angen mwy o wybodaeth ariannol mewn perthynas â throsglwyddo stoc. Dywedodd y Cadeirydd iddi gyflwyno cais am wybodaeth i Peter Law yn ddiweddar ac y byddai'n rhyddhau copi o'i llythyr i'r Pwyllgor.

31. Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn barod i ddefnyddio'r hicyn ar yr amserlen ar brynhawn Iau 23 Tachwedd ar gyfer sesiwn ymgynghori llafar. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno cais i'r Pwyllgor Busnes.

**Eitem 9: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi: LGH-09-00 (min)**

32. Ar yr eitem datganiad o fudd (paragraff 2.1), nodwyd bod Janet Ryder yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun (ac nid yn Faer mwyach). Fel arall cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2000**

**ATODIAD**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18 HYDREF**

1. Cytunodd y Gweinidog i egluro ei rôl fel Gweinidog Cyllid a'i rôl fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol a thai yng nghyd-destun materion ariannol yn y cyfarfod nesaf (paragraff 5).

2. Byddai'r Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor maes o law ar ffrwyth y gwaith i wella diogelwch rhag tân mewn adeiladau newydd (paragraff 9).

3. Cytunodd y Gweinidog i ddod ag adroddiad i'r Pwyllgor ar sail reolaidd ar ddatblygiadau yn y Cyngor Partneriaeth (paragraff 10).

4. Cytunodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron ar rôl cynghorau tref a chymuned, gan gynnwys dirprwyo pwerau o'r awdurdodau unedol (paragraff 11).

5. Byddai'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn rhoi cyfarwyddyd anffurfiol i'r Aelodau ar y fethodoleg ystadegol sy'n sail i'r fformiwla Asesiad Gwario Safonol newydd (paragraff 14).

6. Gwahoddwyd y Gweinidog i gymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor ar adroddiad terfynol yr Is-grp Dosbarthu ar ddatblygu fformiwla Asesiad Gwario Safonol newydd (paragraff 15).

7. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i gofnodi'n ffurfiol farn y Pwyllgor y dylai cyfiawnder yr ifanc ymddangos ochr yn ochr â diogelwch y gymuned ym mhortffolio'r Gweinidog (paragraff 23).

8. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog gan ofyn iddi ddarparu 'map' o'r holl bartneriaethau sydd a wnelont ag adfywio cymunedol, yn ogystal â rhestr o'r holl gynlluniau grant sydd ar gael tuag at adfywio cymunedol (paragraff 27).

9. Byddai Clerc y Pwyllgor yn trefnu sesiwn cyfarwyddo gan Gyngor y Benthycwyr Morgeisi ar y broses o drosglwyddo stoc (paragraff 30).

10. Byddai'r Cadeirydd yn cylchredeg i'r Pwyllgor gopi o'i llythyr at Peter Law yn ceisio gwybodaeth ariannol yngln â throsglwyddo stoc (paragraff 30).

11. Byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno cais i'r Pwyllgor Busnes am gael defnyddio'r hicyn ar yr amserlen brynhawn Iau 23 Tachwedd (paragraff 31).